



Rydym yn llawn cyffro wrth gyhoeddi manylion Ffair Brintiau Gogledd Cymru, cynhelir y ffair ar ddydd Sadwrn 7fed Mawrth 2020 yn oriel MOSTYN Llandudno.

Bydd Ffair Brintiau Gogledd Cymru, a drefnir mewn partneriaeth â'r Ganolfan Argraffu Ranbarthol, yn gyfle gwych i ddefnyddwyr print o'r DU gyflwyno'r gwaith i'w werthu yn oriel gyfoes a chanolfan gelfyddydau gweledol mwyaf blaenllaw Cymru.

Mae ei siop ac oriel manwerthu, gan gynnwys un ymroddedig i wneuthurwyr printiau, wedi cael eu galw'n 'lle i mynd' yng Ngogledd Cymru i brynu gwaith gan wneuthurwyr cyfoes am brisiau fforddiadwy.

FFAIR BRINTIAU Gogledd Cymru

Lleoliad: MOSTYN, 12 Vaughan Street, Llandudno, LL30 1AB

Dyddiad: Sadwrn 7fed Mawrth 2020

Agored i'r cyhoedd: 10.30yb- 5yp

Mynediad i'r cyhoedd: Am ddim

Am dan Canolfan Argraffu Ranbarthol

Sefydliad sy'n canolbwyntio ar artistiaid yw'r Ganolfa Argraffu Ranbarthol wedi ei lleoli yn y stiwdioargraffu yng Ngholeg Cambria, Wrecsam ac sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd creadigol i wneud printiau gan gynnwys mynediad agored, gweithdai, cyrsiau ac arddangosiadau.

Prosiect ar y cyd yw'r ganolfan Argraffu Ranbarthol wedi'i chyllido gan Goleg Cambria a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Am dan MOSTYN:

Mae MOSTYN yn cyflwyno celf a diwylliant rhyngwladol o'n hamser, gan weithredu bywydau pobl trwy arddangosfeydd, rhaglenni diwylliannol a gweithgareddau masnachol. Wedi'i leoli yn nhref arfordirol Llandudno, dyma oriel gyfoes a chanolfan gelfyddydau gweledol mwyaf blaenllaw Cymru, gan wasanaethu fel man i ffurfio a rhannu safbwyntiau newydd trwy arfer artistig / curadurol ac ymgysylltu â'r gynulleidfa. Mae MOSTYN yn rhan o Plus TATE - Rhwydwaith o sefydliadau celfyddydol y DU.

Mae MOSTYN yn derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Gwasanaeth Celf Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Mostyn Gallery LTD yn elusen gofrestredig sy'n masnachu fel MOSTYN.

Gwybodaeth am stondinau:

Stondinau:

£75.00 y bwrdd.

[Plis sylwch dim ond nifer cyfyngedig o dablau unigol ar gyfer dydd Sadwrn a dydd Sul. Caiff lleoedd ar gyfer slot undydd yn eu neilltuo yn unol â disgresiwn MOSTYN.]

1x bwrdd trestl [2" x 6"] a bydd un gadair yn cael ei ddarparu, gyda gofod o blaen y bwrdd ar gyfer rac print bach.

Mae modd dewis cael lle ar fur, os bydd ar gael. Caiff lleoedd eu neilltuo yn unol â disgresiwn MOSTYN. Nodwch yn eich cais os byddai'n well gennych chi gael muriau neu beidio.

Mae modd neilltuo lle ar fur er mwyn hongian gweithiau arno. Bydd angen i chi gyflenwi'ch offer eich hun [dim offer pweredig] a hoelion/sgriwiau. Sylwer mai chi sy'n gyfrifol am eich iechyd a'ch diogelwch pan fyddwch yn hongian gwaith ac yn ei dynnu i lawr. Ni all MOSTYN fod yn gyfrifol am unrhyw anaf neu ddifrod a achosir i chi neu i unrhyw un arall gan eich gwaith gosod/gwaith celf.

Rhaid i stondinwyr osod eu stondin eu hunain. Rhaid i stondinwyr ddod â'u gorchuddion bwrdd, eu propiau a'u harddangosiadau eu hunain.

Bydd modd gosod manau/stondinau o 7.30am. Mae'r mynediad llwytho/gollwng yn gyfyngedig y tu ôl a yn y blaen i'r adeilad.

Bydd y gweithgarwch masnachu yn cychwyn am 10.30yb ac yn dod i ben pan fydd y ffair yn cau am 5yp.

Rhaid gosod stondinau o fewn y ffiniau a neilltuwyd, ac ni ddylent beri rhwystr i aelodau'r cyhoedd na stondinwyr eraill. Yn ogystal, mae stondinwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cadw eu stondin yn daclus ac yn rhydd rhag unrhyw beryglon baglu, ysbwriel ac ati.

Rhaid gosod unrhyw ddodrefn stondin annibynnol [e.e. standiau, unedau, rheseli ac ati] mewn ffordd ddigonol a gosod pwysau wrthynt yn ôl yr angen.

Ni ddarparir trydan na generaduron, ac ni fydd modd defnyddio'r rhain yn ystod y ffair.

Ar ddiwedd y ffair, mae stondinwyr yn gyfrifol am gael gwared ar y stondin a dodrefn / arddangosiadau'r stondin, eiddo ac ysbwriel. Rhaid i stondinwyr clirio stondinau erbyn 6.30yn.

Y maes parcio agosaf yw Gorsaf Drenau Llandudno, sydd bum munud i ffwrdd ar droed o'r oriel. Sylwer mai maes parcio talu ac arddangos yw hwn.

Buddion i'r stondinwyr:

Chymdeithas gyda'r Ganolfan Argraffu Ranbarthol a'r presenoldeb yn MOSTYN, oriel gelf gyfoes a chanolfan gelf weledol fwyaf blaenllaw Cymru. Mae MOSTYN yn rhan o Plus TATE - Rhwydwaith o sefydliadau celfyddydol y D.U.

Datganiad i'r wasg a'n rhwydweithiau estynedig.

Darllediad helaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol [estyniad cyfunol o 17,500 o ddilynwyr ar draws ein platfformau].

Copi digidol o'r poster / taflen [copïau ffisegol ar gael i'w casglu o'r lleoliad].
Rhestru ar ein gwefan.

Wi-Fi am ddim drwy'r adeilad. Mae'r adeilad hefyd yn gwbl hygyrch.

Termau:

Gwahoddir ceisiadau gan wneuthurwyr printiau unigol, stiwdios printiau, grwpiau a chyflenwyr deunydd celf.

Rhaid i'r holl waith fod yn wreiddiol a gan y gwneuthurwyr printiau / aelodau'r grŵp. Defnyddio dulliau print traddodiadol neu gyfoes.

Adolygir y ceisiadau ar sail nifer o feini prawf gan gynnwys ansawdd, cysondeb y gwaith, pris ac amrywiaeth. Ni fydd modd rhoi adborth am unrhyw geisiadau aflwyddiannus.

Ni chodir unrhyw dâl comisiwn ar werthiannau, a byddwch chi'n gyfrifol am ddelio ag unrhyw werthiannau. Chi sy'n gyfrifol hefyd am eich cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol chi.

Rhaid i stondinwyr ddarparu tystiolaeth o'u hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus – rhaid rhoi copi o hwn i MOSTYN ymlaen llaw. Yn ogystal, rhaid i stondinwyr gytuno dilyn a bodloni'r holl ofynion iechyd a diogelwch.

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus dalu'r ffioedd ymlaen llaw a byddant yn cael eu hanfoneb gyda'u pecyn gwybodaeth. Ni fydd modd ad-dalu ffioedd stondinau.

Ni roddir unrhyw ad-daliadau dan unrhyw amgylchiadau. Ni fydd modd i unrhyw stondinwyr sy'n canslo drosglwyddo eu stondin i drydydd parti.

Ni all MOSTYN fod yn gyfrifol am unrhyw golled/neu ddifrod i unrhyw eiddo neu stoc y rhai sy'n arddangos yn y ffair.

Mae stondinwyr yn atebol am yr holl hawliadau sy'n deillio o'u nwyddau a'u gwasanaethau.

Mae MOSTYN yn cadw'r hawl i ofyn bod unrhyw gynnwys neu stondin neu ddodrefn stondin y bernir ei fod yn sarhaus, yn amhriodol neu'n beryglus, yn cael ei waredu.

I ymgeisio:

Lawrlwythwch y ffurflen gais o'n gwefan: www.mostyn.org/print

E-bostiwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau ynghyd â'r:

- Atodwch 4x o ddelweddau ansawdd da o eich gwaith / nwyddau [1x Delwedd o'r stondin flaenorol yn dewisol.]
- Plis atodwch ddatganiad artist neu ddisgrifiad byr o'ch techneg argraffu at eich cais e-bost hefyd.
- E-bostiwch i barry@mostyn.org

Plis cyflwynwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau gyda dogfennau ategol trwy e-bost erbyn 5yp ar Dydd Mawrth 14 Ionawr 2020. Ni chaiff ceisiadau heb ddelweddau / datganiad ategol eu prosesu.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn clywed yn ôl erbyn Dydd Mercher 15fed Ionawr 2020.

Ni fydd modd rhoi adborth am unrhyw geisiadau aflwyddiannus.

Ni fyddwn ond yn cadw eich data hyd nes cwblhau'r FFAIR BRINTIAU Gogledd Cymru 2020. Ar ôl eich digwyddiad, bydd eich ffurflen archebu a manylion cyswllt yn cael ei storio'n ddiogel am 6 blynedd at ddibenion archwilio. Byddwn ond yn cysylltu â chi o ran y FAIR BRINTIAU Gogledd Cymru 2020.

Ni fyddwn yn rhannu eich manylion gydag unrhyw drydydd parti.

